The Vale of Glamorgan
The Perfect Pitch
Coastal Camping

# The Campsite Toolkit

### A rough guide to setting up a new campsite

**PRODUCED BY AND WITH SUPPORT FROM**

creative RURAL COMMUNITIES

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

LEADER

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**WE ARE CREATIVE RURAL COMMUNITIES; THE VALE OF GLAMORGAN COUNCIL'S RURAL REGENERATION INITIATIVE. IN SHORT WE RUN LOADS OF GREAT PROJECTS SUPPORTING CREATIVITY AND ENTERPRISE IN THE RURAL VALE OF GLAMORGAN.**

This project has received funding through the Rural Development Plan for Wales 2007 – 2013 which is funded by the Welsh Government and the European Agricultural Fund for Rural Development, and the Vale of Glamorgan Council. **To find out more about Creative Rural Communities, please visit: www.creativeruralcommunities.co.uk**

---

Following demand from local landowners, a growing issue with illegal camping, the opening of the Wales Coast Path and the Eisteddfod in the Vale of Glamorgan in 2012; Creative Rural Communities were challenged by their Local Action Group to support the development of new campsites in the Glamorgan Heritage Coast region through a pilot scheme.

Ultimately, the aim was to encourage suitable landowners to make informed decisions about opening and potentially creating a new critical mass of campsites in the area to help the Vale of Glamorgan be seen as a camping destination.

They endured our selection process, study tours, workshop events, mentoring, one to one advice and assistance, photo shoots, marketing campaigns, monitoring, evaluation and the not so small task of operating their own campsites for 28 days.

## IN THE SUMMER OF 2012 *dotted along the* SANDY SHORES *and* RUGGED CLIFFTOPS *of the* GLAMORGAN HERITAGE COAST, WE SUPPOTED THE TRIAL OF SIX NEW CAMPSITES

For further details about the trial process, check out our blog at
**WWW.PERFECTPITCHCAMPING.CO.UK/BLOG**



# THE TOOLKIT

**THIS TOOLKIT SHARES WITH YOU EVERYTHING WE LEARNT ABOUT SETTING UP A CAMPSITE; AND WILL HOPEFULLY PROVE TO BE A USEFUL RESOURCE TO OTHERS WANTING TO DO THE SAME THING.**


**06** MENTORS & RESEARCH

**08** DO I NEED PLANNING PERMISSION?

**010** HEALTH & SAFETY

**010** REFUSE

**011** LICENSING

**011** BUILDING CONTROL

**012** MARKETING

**018** SIGNAGE

**018** COSTS

**020** DIRECTORY OF VALE OF GLAMORGAN CAMPSITES


{ This TOOLKIT will have relevance whether you are in the Vale of Glamorgan, Wales or elsewhere in the UK, but it is also worth remembering that this was relevant in the Vale of Glamorgan in 2012, and may change over time and place, please use this as a guide book and not a rule book! }

## MENTORS & RESEARCH

### WHAT TYPE OF CAMPSITE DO YOU WANT TO BE?

If you don't already know the answer to this then you will need to do some research. As with most things there is nothing better than some first hand experience and if you are a camper you will already have some insight into what makes a good campsite, and the type of campsites available. However, if you are new to camping we would suggest that you visit some campsites, either as a paying customer, or by arrangement with the campsite.

We visited a number of campsites in Gower and saw a variety of campsites ranging from farmers fields with porta-loos, to sites with hard standings and electric hook-ups for caravans with on-site laundries, cafes and play rooms, and we learnt something different from all of them, and sometimes conflicting information…

*"Campers today demand electric hook-ups and want all the mod-cons, gone are the days where people are prepared to just pitch a tent in field and make do"*

*"All of our visitors come for the peace and quiet; they want to leave the games consoles and mobile phones at home, and just spend some quality time together as a family in the great outdoors. We don't have any electric hook-ups or facilities other than a toilet"*

Both appeared to be right as both boasted to be fully booked all summer, and enjoyed lots of repeat visitors.

We were also lucky enough to have some of our existing local campsite proprietors to visit some of our workshops and hold Q&As.











**A FRIENDLY HOST CREATES HAPPY CAMPERS, NOT A PEOPLE PERSON? THEN CAMPING IS NOT FOR YOU...**






## TEN TOP TIPS

**WE LEARNT FROM THE PROFESSIONALS**

*Be clear about your site rules and stick to them*

*Campers can create their own body weight in rubbish every day!*

*Do not judge your visitors by their appearance; they will surprise you*

*You have to supply electric hook-ups*

*You do not have to supply electric hook-ups*

*Take a deposit or full fees with a booking as campers often don't turn up in bad weather*

*Don't bother with deposits, it's a hassle and puts people off booking*

*It's important to have a website and distribute leaflets*

*It's more important to make good use of on-line listing sites than to have your own website*

## DO I NEED PLANNING PERMISSION?

### IT REALLY DEPENDS ON WHAT YOU WANT TO DO AND HOW YOU WANT TO OPERATE; WE HAVE IDENTIFIED THREE MAIN OPTIONS:

#### THE 28 DAY RULE

In most local authority areas, land owners can use their land as a campsite for up to 28 days per year without applying for any specific permission; these days do not have to be over a consecutive period and can be ad-hoc. This rule is only for tents and not for campervans/motor homes or caravans, and some local authorities do not permit this so you should check with them. It is also worth noting that even if it is permitted to have tents on your land for 28 days, it may not include other facilities like toilets, showers and signage for example. Check with your local authority before you set up a campsite using this 'rule'. If you live in the Vale of Glamorgan, you can use their free 'Do I need planning permission' form to submit your enquiry:

**www.valeofglamorgan.gov.uk/living/planning/planning_applications/advice_and_guidance.aspx**

If you are a tenant, we would suggest that you check with your landlord first, and consider getting a written agreement that they are happy for you to use the land in this way.

#### PLANNING PERMISSION

If you want to operate for more than 28 days a year, then you will need to make an application to your local planning authority for planning permission or planning exemption. If this is granted, this process can take at least 8 weeks.



Each local planning authority will work to different policies. As a very rough guide, we were asked to consider the following when working through the initial expressions of interest from landowners and tenants, but this was specific to the Vale of Glamorgan at that time, the current economic and tourism perspectives, and the list was not exhaustive nor was any single consideration a deal breaker!

### A ROUGH GUIDE

*Good proximity to a village, especially one with a pub and/or shop*

*Good proximity to an existing dwelling or buildings but not an area of garden*

*Good access to existing roads*

*Camping for tents; Low key sustainable camping*

*Good access to the coastal path*

*Ideally, have existing buildings which could be considered for conversion for amenities*

*The visibility from both the coast and immediate community will be considered*

#### CERTIFIED LOCATION

It is possible to be a 'Certified Location', this essentially means that you do not need Planning Permission from the local authority, although they are often consulted on the issue of the certificate. Instead, you can apply to become a certified location, this can be issued by a wide number of organisations such as the Camping and Caravan Club, the Caravan Club and the Scouts to name a few. For a full list of such organisations, please contact the licensing team in your local authority. Each offers a different type of certificate, that come with different conditions, restrictions and application processes. We recommend that you contact a few to find out what they offer to determine if this is the right route for you.

In all of the examples above, we recommend that you check that you are not receiving funds/subsidies to use your land for something other than a campsite.

## HEALTH & SAFETY

For any advice on health and safety, we recommend that you contact your local authority as a first port of call; depending on your business type they can advise if you come under their remit or that of the Health and Safety Executive.

Either way, you can get lots of useful advice about risk assessments, selling produce and the law, fire safety etc from the Health and Safety Executives website **www.hse.gov.uk**

For permanent campsites, many health and safety requirements are listed in the site licence issued by your local authority.

## REFUSE

Campsites have a duty to dispose of their waste responsibly and lawfully. All campsite waste should be treated as commercial waste, and therefore cannot simply be put out for collection with domestic waste. Commercial waste collection can be organised through your local council or by a private licensed waste removal company.

### THINGS TO CONSIDER

- *You should consider provision for re-cycling as well as waste. Maybe 50/50%.*
- *You will need to provide large or multiple bins for campers to put their waste in, these are often provided by the waste collection providers.*
- *Your bins should be easily accessible for both campers, and the waste collectors, consider a hard standing so lorries can access them, or so that you can wheel them easily to a collection point.*
- *Commercial waste collection can be costly, so shop around, and try to find a contract that can be flexible once you have established what your waste collections needs are.*
- *Consider cost, volume of waste, frequency of collection, and flexibility of the contract.*



## LICENSING/ ENVIRONMENTAL HEALTH

Site licences vary from county to county, so it is always advisable to contact your local licensing department to understand local rules on licensing requirements.

**THE FOLLOWING MAY BE COVERED IN THE SITE LICENCE:**

- *Ratio of toilets and showers to campers*
- *Density/spacing of camping pitches*
- *Access/ Gateways/ Footpaths/ Site boundaries*
- *Ratio of drinking water and waste water disposal to campers*
- *Ratio of washing points to campers*
- *Fire precautions (e.g: Ratio of fire extinguishers/ risk assessments etc)*
- *Necessary notices*
- *Guidance on storing LPG*
- *Period of use*
- *Refuse disposal*

## BUILDING CONTROL

It is advisable to contact building control in your local authority to talk through your plans whether you are planning to install permanent or temporary facilities. They can give you advice on waste water, water and electric sources and installation etc.

**MARKETING YOUR CAMPSITE**
CAN BE COSTLY AND A BIT OF A MINE-FIELD, AND OF COURSE YOU WANT TO PUT YOUR EFFORTS AND YOUR MONEY INTO THINGS ARE GOING TO PROVIDE YOU WITH THE BEST RETURN ON YOUR INVESTMENT.





# MARKETING

### YOUR OWN WEBSITE

It is good to have your own website as you are not limited to the amount of content and detail that you provide. However a good website is no good unless you are using other methods to generate traffic to your website, otherwise it is like creating a beautiful poster and putting it in a drawer!

Your website should be easy to update as you may want to regularly change your prices depending on the season, advertise special offers etc. We would recommend having a website that you can update yourself, and aim to have a site that is free to or cheap to host. Blog sites such as BlogSpot or Word Press sites can be used as websites and are free and easy to update. If you don't feel that you can take this on yourself, try getting a little bit of training before you write it off completely, or find a helpful family member who is willing to take it on, consider paying a professional for this as a last resort as this can be costly, not very timely and restricting.

### ON-LINE LISTINS

There are many websites that offer online listings for campsites; often they offer free listings with the option to upgrade for greater visibility. Often the free listing is only useful if the person searching for a campsite already knows the name of the campsite and is searching for it specifically. Upgraded listings will often put you onto the general search options so that you can be found when the searcher is looking by area for example.

We recommend choosing one or two sites to add your campsite to, and upgrade your listing to test the water for a season or two. Try and choose listing sites that are easy to find in web search engines, for example, try searching for 'camping' or 'campsites' in Google, and see which listing sites come to the top regularly. (Don't forget to list your own website on the contact details.)

### CLICK CAMPAIGN

There are many opportunities to pay for optimising your website in search engines, these can be 'pay per click' campaigns, Google ad-words, advertising on camping/lifestyle websites, SEO (search engine optimisation) – these all come with a cost and should be considered carefully to decide if you will get a return on your investment.

### SOCIAL MEDIA

This is good way to communicate regular updates to your followers, who may often be past visitors to your campsites. It is informal, easy and free, and a great way to keep your campsite in the minds of potential (repeat) visitors. You can quickly post photos, special deals, reminders, and news and is generally seen as less formal or 'naggy' than sending an email. Twitter and Facebook are commonly used for this and are widely used.

### EMAIL

It is good practice to get email addresses from your campers so that you can follow up with messages about the new season, special deals etc. However, we recommend that you limit your emails so that they are not seen as a pest! You may want to consider using a social media channel to convey similar messages.

### VISIT WALES

Visit Wales oversee the development, marketing and promotion of the tourism industry in Wales. If your campsite is graded, you can be included in their marketing activities online for a fee: **www.visitwales.com**





### YOUR LOCAL AUTHORITY

In most counties, your local authority will promote accommodation and tourism in the area via a website and/or publications. There may be a small fee for either or both of these. If you live in the Vale of Glamorgan, you could have a listing on **www.visitthevale.com**, here you can also find a copy of the 'The Glamorgan Heritage Coast and Countryside' brochure which you can opt to advertise in. You should contact the tourism team to discuss your campsites.

### LOCAL TOURISM/ TRADE ASSOCIATIONS

You may find opportunities to advertise or work co-operatively with similar businesses by joining your local chamber of trade, and/or tourism association. If your campsite is in the Vale of Glamorgan, your local tourism association is the Vale Marketing Group: **www.gardenofcardiff.com** who provide marketing opportunities, and hold a number of events for the tourism trade. You may also choose to join the Perfect Pitch co-operative, which offers further joint marketing opportunities: **www.perfectpitchcamping.co.uk**

### GRADING

As with other accommodation, campsites can be graded in terms of their service and facilities; some campers may look for this star grading when choosing a campsite (many may not!). As well as being a distinct award that visitors may relate to, you will also need to undertake this grading every year if you want to be listed on the Visit Wales website.

Grading is not a requirement to run a campsite.

## { MARKETING }

### PRESS

The local or national press is unlikely to run editorial stories about a single campsite, unless there is something especially unusual about it. You may get a mention in your local press to announce the opening of the site if you contact them. You can choose to place a paid advert in the press, but choose your publications carefully; an ad in a daily newspaper will only reach their readers for one day, whereas some other publications such as free lifestyle magazines will be on the shelves (and hanging around the hair dressers or doctors surgeries) for approximately three months. If your campsite has a niche selling point, you may want to consider placing an advert in niche publications that will attract the same potential customers.

### LOCAL ADVERTISING

With the upward trend of 'staycations' more and more people are choosing to stay close to home for their holidays, you may benefit from placing posters and/or flyers in your local pubs, schools and shops to help spread the word locally. Don't forget to top them up or re-fresh them regularly.

### PHOTOGRAPHY

We would recommend using a professional photographer to capture some good images of your campsite. You may also find that your local council, trade association and Visit Wales hold some stock photography of the local area and attractions which you could use on your website; these may be free of charge.





ALL MARKETING ACTIVITIES WILL BENEFIT FROM GOOD QUALITY PHOTOGRAPHY






## SIGNAGE

You may need to consider the use of directional signage to your campsite, and you may need some welcome and information signage around your campsite. Most signage over 30cm x 30cm will need planning permission so we recommend that you speak with your local planning authority before you make any decisions.

For permanent campsites, some on-site signage/notices will be a condition of your site licence.

White on Brown directional signage is only applicable to permanent campsites, and usually your local authority will determine when these are appropriate.

Temporary sites, (those operating for up to 28 days pa) may be eligible for temporary AA directional signage.

## COSTS/ FUNDING

Setting up a new campsite will come with associated costs, we would recommend planning a budget and a business plan to help determined if you would like to proceed, and to consider where your funds will be come from.

You can access free help with budgets and business plans. If you live in Wales, you could contact **www.business.wales.gov.uk**

You may be eligible for funding to help set up your campsite. You should contact your local council, tourism and trade associations and Visit Wales to find out what funding opportunities are available in your area. If you are not eligible for set up costs, you may be eligible for some training costs.



### YOU SHOULD CONSIDER AT LEAST THE FOLLOWING IN YOUR BUDGET:

- Provision of toilets
- Provision of showers
- Water supply (new pipe works and connections)
- Water bills
- Electricity supply and bills
- Gas supply and bills
- Hand wash provisions
- Refuse collection and bins
- Safety equipment such as fire extinguishers, fire alarms
- Marketing
- Site works
- Planning permission
- Consumables (toilet rolls, soap, cleaning products.)
- Signage
- Staff
- Insurance
- Ongoing maintenance

# MANY THANKS

to everybody who contributed to the Perfect Pitch trial. If you would like to learn more about the Perfect Pitch trial, you may be interested to read our Evaluation Report **www.creativeruralcommunities.co.uk**, or read our blog **wwwperfectpitchcamping.co.uk**

If you would like to camp in the Vale of Glamorgan, please check out the following websites:

**www.visitthevale.co.uk • www.gardenofcardiff.co.uk • www.perfectpitchcamping.co.uk**

## DIRECTORY OF

**VALE OF GLAMORGAN CAMPSITES**
(including trial campsites 2012)

**HERITAGE COAST CAMPSITE**
Monknash, CF71 7QQ
**T:** 01656 890399
info@heritagecaostcampsite.com

**POOL FARM CAMPSITE,**
St Brides Major, CF32 0SE
**T:** 01656 881675
kate@poolfarmcatering.co.uk

**LOUGHER MOOR CAMPSITE,**
Llantwit Major, CF61 2YT
**T:** 01446 796988
enq@loughermoor.co.uk

**FARMERS FIELDS CAMPSITE**
Llantwit Major, CF61 2YT
**T:** 01446 793002
davies@farmersbarns.co.uk

**THREE GOLDEN CUPS CAMPSITE**
Southerndown, CF32 0RW
Bookings (The Cups):
**T:** 01656 880432
alun747@yahoo.com

**LLANDOW CARAVAN PARK,**
Llandow, Cowbridge, CF71 7PB
**T:** 01446 794527
info@llandowcaravanpark.com

**HAPPY JAKES**
Flemingston, CF62 4QL
**T:** 01446 750174
info@happyjakes.co.uk

**ACORN CAMPING & CARAVAN PARK**
Llantwit Major, CF61 1RP
**T:** 01446 794024
info@acorncamping.co.uk

**FONTYGARY PARK,**
Rhoose, CF62 3ZT
**T:** 01446 719464
enquiries@fontygaryparks.co.uk

THE VALE OF GLAMORGAN
THE PERFECT Pitch
COASTAL CAMPING

# PECYN CYMORTH *ar* GYFER MEYSYDD GWERSYLLA

ARWEINIAD CYFFREDINOL AR GYFER SEFYDLU MAES GWERSYLLA NEWYDD


CYNHYRCHWYD A CHEFNOGWYD GAN

creative RURAL COMMUNITIES

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

LEADER

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**CYMUNEDAU GWLEDIG CREADIGOL YDYM NI, SEF MENTER ADFYWIO GWLEDIG CYNGOR BRO MORGANNWG. YN GRYNO, RYDYM YN RHEDEG NIFER O BROSIECTAU GWYCH, GAN GEFNOGI CREADIGRWYDD A MENTER YN ARDALOEDD GWLEDIG BRO MORGANNWG.**

Mae'r prosiect hwn wedi cael arian trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a Chyngor Bro Morgannwg. I gael mwy o wybodaeth am Gymunedau Gwledig Creadigol, ewch i: **www.creativeruralcommunities.co.uk**

---

Yn dilyn galwadau gan dirfeddianwyr lleol, problem gynyddol ynghylch gwersylla anghyfreithlon, agor Llwybr Arfordir Cymru, a'r Eisteddfod ym Mro Morgannwg yn 2012, rhoddwyd her i Gymunedau Gwledig Creadigol gan eu Grŵp Gweithredu Lleol i gynnal cynllun peilot er mwyn cefnogi datblygiad meysydd gwersylla newydd yn rhanbarth Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Yn y pen draw, y nod oedd annog meysydd gwersylla newydd i agor, gan greu màs critigol newydd o feysydd yn yr ardal i helpu Bro Morgannwg i gael ei gweld fel rhywle i fynd i wersylla.

Aethant trwy ein proses ddethol, teithiau astudio, gweithdai, sesiynau mentora, cyngor a chymorth unigol, sesiynau tynnu lluniau, ymgyrchoedd marchnata, prosesau monitro a gwerthuso, a'r gorchwyl nid bychan o weithredu eu meysydd gwersylla eu hunain am 28 diwrnod.

**YN YSTOD YR HAF 2012**

*yma ac acw ar hyd*

# LANNAU

**TYWODLYD**

*a* **CHLOGWYNI**

GARW

ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG,

**CEFNOGWYD CYNLLUN PEILOT**

# O CHWE MAES GWERSYLLA NEWYDD

I gael mwy o fanylion am y cynllun peilot, ewch i'n blog yn **WWW.PERFECTPITCHCAMPING.CO.UK/BLOG**



# Y PECYN CYMORTH

**MAE'R PECYN HWN YN CYNNWYS POPETH YR YDYM WEDI'I DDYSGU AM SEFYDLU MAES GWERSYLLA, A GOBEITHIO Y BYDD YN ADNODD DEFNYDDIOL I ERAILL SYDD EISIAU GWNEUD YR UN PETH.**


| | |
|---|---|
| **06** | MENTORIAID A GWAITH YMCHWIL |
| **08** | A OES ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO ARNAF FI? |
| **010** | LECHYD A DIOGELWCH |
| **010** | GWASTRAFF |
| **011** | TRWYDDEDU |
| **011** | RHEOLI ADEILADU |
| **012** | MARCHNATA |
| **018** | ARWYDDION |
| **018** | COSTAU |
| **020** | CYFEIRIADUR MEYSYDD GWERSYLLA BRO MORGANNWG |


Bydd yn berthnasol os ydych ym Mro Morgannwg, yng Nghymru neu yn unrhywle arall yn y DU, ond mae hefyd yn bwysig cofio bod hwn yn berthnasol ym Mro Morgannwg yn 2012 ac y gallai newid gan ddibynnu ar yr amser a'r lle. Felly, defnyddiwch hwn fel arweiniad ac nid fel llyfr rheolau!

## MENTORIAID A GWAITH YMCHWIL

### PA FATH O FAES GWERSYLLA YR YDYCH EISIAU BOD?

Os nad ydych eisoes yn gwybod yr ateb i hyn, bydd yn rhaid i chi wneud rhywfaith o waith ymchwil. Fel gyda llawer o bethau, nid oes dim gwell na phrofiad personol, ac os ydych yn wersyllwr, bydd gennych ryw syniad o'r hyn sy'n gwneud maes gwersylla da, a'r mathau o feysydd sydd ar gael. Ar y llaw arall, os nad ydych wedi arfer gwersylla, awgrymwn y dylech ymweld â rhai meysydd, naill ai trwy dalu i aros yno, neu drwy drefnu â'r perchenogion.

Aethom i ymweld â nifer o feysydd gwersylla ym Mro Gŵyr a gweld amrywiaeth enfawr, o gaeau ffermwyr â thoiledau dros dro i safleoedd â lleiniau caled a chysylltiadau trydan ar gyfer carafanau gyda golchdai, caffis ac ystafelloedd chwarae ar y safle. Roedd gan bob un rywbeth gwahanol i'w ddysgu i ni, a chaswom wybodaeth anghyson weithiau...

*"Mae gwersyllwyr heddiw yn mynnu cael cysylltiadau trydan ac maen nhw eisiau pob cysur modern, mae'r dyddiau wedi diflannu lle mae pobl yn barod i godi pabell mewn cae a bodloni ar hynny."*

*"Mae ein hymwelwyr i gyd yn dod am ychydig o heddwch; maen nhw eisiau gadael y consolau gêm a'r ffonau symudol gartre' a threulio amser gyda'i gilydd fel teulu yn yr awyr agored. Does gennym ni ddim cysylltiadau trydan na chyfleusterau heblaw am dŷ bach."*

Roedd yn ymddangos eu bod y dau yn iawn gan iddynt frolio bod eu llyfrau yn llawn trwy'r haf a bod llawer o'u hymwelwyr yn dod yn ôl atynt.

Buom hefyd yn ddigon ffodus i gael rhai o berchnogion ein meysydd gwersylla lleol presennol i ddod i rai o'n gweithdai a chynnal sesiynau cwestiwn ac ateb.











**MAE PERCHENNOG CYFEILLGAR YN CREU GWERSYLLWYR HAPUS. DYDYCH CHI DDIM YN BERSON SY'N HOFFI POBL? OS FELLY, NID GWERSYLLA YW'R MAES I CHI...**






## DEG AWGRYM GORAU

**DYMA DDEG AWGRYM GAN Y GWEITHWYR PROFFESIYNOL:**

*Nodwch reolau eich safle'n eglur, a glynwch wrthynt.*

*Gall gwersyllwyr greu pwysau eu corff mewn sbwriel bob dydd!*

*Peidiwch â barnu eich ymwelwyr yn ôl eu hymddangosiad; byddant yn eich syfrdanu.*

*Mae'n rhaid i chi ddarparu cysylltiadau trydan.*

*Nid oes rhaid i chi ddarparu cysylltiadau trydan.*

*Codwch flaendal neu ffioedd llawn wrth i bobl archebu lle, gan nad ydynt yn aml yn cyrraedd mewn tywydd garw.*

*Peidiwch â thrafferthu â blaendaliadau; mae'n helbul, ac mae'n gwneud i bobl beidio â bod eisiau archebu.*

*Mae'n bwysig fod gennych wefan a'ch bod yn dosbarthu taflenni.*

*Mae'n bwysicach gwneud defnydd da o safleoedd rhestrau ar-lein na chael eich gwefan eich hun.*

## A OES ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO ARNAF FI?

### MAE'N DIBYNNU AR BETH RYDYCH CHI'N DYMUNO EI WNEUD A SUT RYDYCH CHI EISIAU GWEITHREDU. RYDYM WEDI NODI TRI PHRIF DDEWIS:

#### Y RHEOL 28 DIWRNOD

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol, caiff tirfeddianwyr ddefnyddio eu tir fel maes gwersylla am hyd at 28 diwrnod bob blwyddyn heb orfod cyflwyno cais am unrhyw ganiatâd penodol; nid oes rhaid i'r dyddiau hyn fod dros un cyfnod olynol. Ond dim ond ar gyfer pebyll y mae hyn yn berthnasol, ac nid ar gyfer cartrefi modur na charafanau. Hefyd, nid yw pob awdurdod lleol yn caniatáu hynny, ac felly dylech holi er mwyn gwneud yn siŵr. Hyd yn oed os caniateir cael pebyll ar eich tir am 28 diwrnod, mae hefyd yn werth nodi nad yw hynny o bosibl yn cynnwys caniatâd ar gyfer cyfleusterau eraill fel tai bach, cawodydd ac arwyddion.

Rydym yn argymell y dylech ofyn i'ch awdurdod lleol i wneud yn siŵr cyn i chi sefydlu maes gwersylla trwy ddefnyddio'r 'rheol' hon. Os ydych yn byw ym Mro Morgannwg, gallwch ddefnyddio eu ffurflen 'Oes rhaid i mi gael caniatâd cynllunio?' yn rhad ac am ddim ar gyfer cyflwyno eich ymholiad:

**www.valeofglamorgan.gov.uk/living/planning/planning_applications/advice_and_guidance.aspx**

Os ydych yn denant, rydym yn awgrymu eich bod yn cael gair â'ch landlord yn gyntaf, ac ystyried cael cytundeb ysgrifenedig i ddangos ei fod yn fodlon i chi ddefnyddio'r tir yn y modd hwn.

#### CANIATÂD CYNLLUNIO

Os ydych eisiau gweithredu am fwy na 28 diwrnod y flwyddyn, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd cynllunio neu esemptiad cynllunio. Mae caniatâd ar gyfer maes gwersylla yr un fath ag unrhyw ddatblygiad arall; mae'n rhaid i chi gyflwyno cais i'r awdurdod cynllunio lleol a bydd yn penderfynu pa un a fydd hyn yn cael ei ganiatáu. Gall y broses hon gymryd o leiaf 8 wythnos.



Fel gyda phob cais cynllunio, mae digonedd o bethau i'w hystyried, a bydd pob awdurdod cynllunio lleol yn dilyn gwahanol bolisïau. Fel arweiniad bras iawn, gofynnwyd i ni ystyried y canlynol wrth weithio trwy'r achosion cychwynnol lle'r oedd tirfeddianwyr a thenantiaid yn mynegi diddordeb. Ond roedd hyn yn benodol i Fro Morgannwg ar yr adeg honno, dan yr amgylchiadau economaidd a thwristiaeth presennol, ac nid oedd y rhestr yn gyflawn nac unrhyw ystyriaeth unigol yn gwarantu caniatâd!

#### ARWEINIAD CYFFREDINOL

*Bod yn agos at bentref, yn enwedig un sydd â thafarn a/neu siop.*

*Bod yn agos at dŷ annedd neu adeiladau presennol ond nid yn rhan o ardd.*

*Mynediad da at ffyrdd presennol*

*Cyfleusterau gwersylla ar gyfer pebyll; cyfleusterau gwersylla sylfaenol, cynaliadwy*

*Mynediad da at lwybr yr arfordir*

*Rhoddir ystyriaeth i'r graddau y mae modd gweld y maes o'r arfordir a'r gymuned gyfagos*

*Bod ag adeiladau sydd eisoes yn bodoli ac y gellid ystyried eu haddasu ar gyfer amwynderau*

#### LLEOLIADAU ARDYSTIEDIG

Mae'n bosibl bod yn 'Lleoliad Ardystiedig', sydd yn golygu yn y bôn nad oes angen Caniatâd Cynllunio arnoch gan yr awdurdod lleol, er y bydd y sefydliad dan sylw yn aml yn ymgynghori â nhw ynglŷn â'r dystysgrif. Yn lle hynny, gallwch gyflwyno cais i nifer eang o sefydliadau – e.e. Camping and Caravan Club, Caravan Club, ac y Sgowtiaid, i enwi ond ychydig – i fod yn lleoliad ardystiedig. I gael rhestr lawn o sefydliadau o'r fath, cysylltwch â'r tîm trwyddedu yn eich awdurdod lleol. Mae pob un ohonynt yn cynnig gwahanol fath o dystysgrif, sy'n cynnwys gwahanol amodau, cyfyngiadau a phrosesau ymgeisio. Rydym yn argymell y dylech gysylltu ag ychydig ohonynt i weld beth sydd ganddynt i'w gynnig, er mwyn penderfynu ai hwn yw'r llwybr priodol i chi.

Yn yr holl enghreifftiau uchod, rydym yn argymell y dylech wneud yn siŵr nad ydych, ar gyfer y tir yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio fel maes gwersylla, eisoes yn cael arian i'w ddefnyddio i wneud rhywbeth arall.

## IECHYD A DIOGELWCH

Rydym yn awgrymu y dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol yn gyntaf i gael unrhyw gyngor ar iechyd a diogelwch; yn dibynnu ar y math o fusnes sydd gennych, gallant roi gwybod i chi a ydych yn rhan o'u cyfrifoldeb nhw ynteu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Waeth pa un, gallwch gael llawer o gyngor defnyddiol ar asesiadau risg, gwerthu cynnyrch a'r gyfraith, diogelwch rhag tân ac ati ar wefan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch **www.hse.gov.uk**

O ran meysydd gwersylla parhaol, mae llawer o ofynion iechyd a diogelwch wedi eu rhestru yn nhrwydded y safle a roddir gan eich awdurdod lleol.

## GWASTRAFF

Fel unrhyw fusnes, mae'n ddyletswydd ar feysydd gwersylla i gael gwared ar eu gwastraff yn gyfrifol a chyfreithlon. Dylid trin holl wastraff maes gwersylla fel gwastraff masnachol, ac o ganlyniad, ni chewch ei adael allan i gael ei gasglu gyda gwastraff domestig. Gallwch drefnu i gael casglu gwastraff masnachol trwy eich cyngor lleol neu gan gwmni casglu gwastraff preifat, trwyddedig.

### MATERION I'W HYSTYRIED

- *Dylech ystyried darparu ar gyfer ailgylchu yn ogystal ag ar gyfer gwastraff - 50/50%, efallai.*
- *Bydd angen i chi ddarparu biniau mawr neu nifer o finiau i wersyllwyr roi eu gwastraff ynddynt. Mae'r rhain ar gael yn aml gan y darparwyr casglu gwastraff.*
- *Gall gwersyllwyr gynhyrchu llawer o wastraff.*
- *Dylai eich biniau fod ar gael yn rhwydd i'r gwersyllwyr a'r casglwyr gwastraff. Gallai hyn olygu eu gadael ar lain caled fel bod lorri yn gallu mynd atynt, neu fel eich bod chi'n gallu eu powlio yn hawdd at bwynt casglu.*
- *Gall casglu gwastraff masnachol fod yn ddrud, ac felly, chwiliwch am y fargen orau. Ceisiwch ddod o hyd i gontract a all fod yn hyblyg ar ôl i chi benderfynu beth yw eich anghenion. Ystyriwch y gost, faint o wastraff sydd, pa mor aml y caiff ei gasglu, a hyblygrwydd y contract.*



## TRWYDDEDU/ IECHYD YR AMGYLCHEDD

Gall Trwydded Safle amrywio o sir i sir, ac felly mae bob amser yn ddoeth cysylltu â'ch adran drwyddedu leol er mwyn deall y rheolau lleol ar gyfer y gofynion trwyddedu.

### GALL Y GWYBODAETH ISOD EI DDATGELU YN Y TRWYDDED SAFLE:

- *Cymhareb tai-bach a chawodydd i wersyllwyr*
- *Dwysedd/gwagleoedd gwersyll*
- *Mynediad/ Giatiau/ Troedffordd / Ffiniau'r Maes*
- *Cymhareb allfa dwr yfed a dwr gwastraff i gwersyllwyr*
- *Cymhareb allfa ymolch i wersyllwyr*
- *Rhagofal Tan (h.y: Cymhareb diffoddwyr tan/asesiad perygl*
- *Arwyddion angenrheidiol*
- *Arweiniad ar storfa LPG*
- *Cyfnod defnydd*
- *Gwastraff*

## RHEOLI ADEILADU

Byddai'n ddoeth i chi gysylltu â'r adran rheoli adeiladu yn eich awdurdod lleol i drafod eich cynlluniau, pa un a ydych yn bwriadu sefydlu cyfleusterau parhaol neu dros dro. Gallant roi cyngor i chi ar ddŵr gwastraff, ffynonellau dŵr a thrydan, gosodiadau ac ati.



**GALL MARCHNATA EICH MAES GWERSYLLA FOD YN DDRUD AC YN DIR BRAIDD YN BERYGLUS, AC WRTH GWRS, RYDYCH CHI EISIAU RHOI EICH YMDRECHION A'CH ARIAN MEWN PETHAU SY'N MYND I ROI'R ELW GORAU AM EICH BUDDSODDIAD.**



## MARCHNATA

### EICH GWEFAN EICH HUN

Mae'n syniad da cael eich gwefan eich hun, gan y gallwch roi faint fynnwch o destun a manylion arni. Ond nid yw gwefan dda yn dda i ddim oni bai eich bod yn defnyddio dulliau eraill o arwain traffig tuag ati. Fel arall, mae fel creu poster hardd a'i gadw mewn drôr!

Dylai eich gwefan fod yn hawdd ei diweddaru gan y gallech fod eisiau newid eich prisiau yn rheolaidd yn dibynnu ar y tymor, hysbysebu cynigion arbennig ac ati. Rydym yn argymell y dylech gael gwefan y gallwch ei diweddaru eich hun, a cheisio cael un y gallwch ei lletya am ddim neu yn rhad. Gallwch ddefnyddio safleoedd blogio, megis BlogSpot neu Word Press, fel gwefannau, ac maent ar gael yn rhad ac am ddim ac yn hawdd eu diweddaru. Os nad ydych yn teimlo y gallwch wneud hynny ar eich pen eich hun, ceisiwch gael ychydig o hyfforddiant cyn diystyru'r syniad yn llwyr, neu chwiliwch am aelod cymwynasgar o'r teulu sy'n fodlon ech helpu. Ystyriwch dalu i weithiwr proffesiynol os nad oes gennych unrhyw ddewis arall, gan y gall hyn fod yn ddrud ac yn gyfyngedig, ac mae'n bosibl na fyddai'r wybodaeth yn cael ei diweddaru mor aml.

### RHESTRIADAU AR-LEIN

Mae llawer o wefannau ar gael sy'n rhestru meysydd gwersylla ar-lein. Maent yn aml yn cynnig gwasanaeth am ddim gyda'r dewis o uwchraddio er mwyn cael sylw mwy amlwg. Yn aml, nid yw'r rhestrau rhad ac am ddim ond yn ddefnyddiol os yw'r unigolyn sy'n chwilio am faes gwersylla yn gwybod enw'r maes yn barod ac yn chwilio amdano'n benodol. Trwy uwchraddio, byddwch yn aml yn cael eich rhoi yn y dewisiadau chwilio cyffredinol fel y gall pobl ddod o hyd i chi wrth chwilio fesul ardal, er enghraifft.

Rydym yn argymell y dylech ddewis safle neu ddau i ychwanegu eich maes gwersylla atynt, ac uwchraddio i weld sut mae pethau'n mynd am dymor neu ddau. Ceisiwch ddewis safleoedd rhestru sy'n hawdd dod o hyd iddynt mewn chwilotwyr y we, er enghraifft, ceisiwch chwilio am 'gwersylla' neu 'maes pebyll' yn Google, ac edrychwch pa safleoedd rhestru sy'n dod i'r brig yn rheolaidd. (Cofiwch restru eich gwefan eich hun ar y manylion cyswllt.)

### YMGYRCH CLIC

Mae llawer o gyfleoedd ar gael i dalu am wneud y gorau o'ch gwefan mewn chwilotwyr. Gall y rhain fod yn ymgyrchoedd 'talu fesul clic', Google AdWords neu SEO (optimeiddio chwilotwyr), neu gallwch hysbysu ar wefannau gwersylla/ffordd o fyw. Mae'r rhain i gyd yn ddrud, a dylid eu hystyried yn ofalus er mwyn penderfynu a fyddwch yn cael elw o'ch buddsoddiad. .

### CYFRYNGAU CYMDEITHASU

Mae hon yn ffordd dda o roi gwybodaeth yn rheolaidd i'ch dilynwyr, a allai yn aml fod yn bobl sydd wedi ymweld â'ch maes gwersylla yn y gorffennol. Mae'n anffurfiol, yn hawdd ac ar gael yn rhad ac am ddim, ac mae'n ffordd wych o gadw eich maes gwersylla yng nghof ymwelwyr posibl neu rai a allai ddod yn ôl atoch. Gallwch bostio lluniau, cynigion arbennig, negeseuon atgoffa, a newyddion, ac mae'n gyffredinol yn teimlo'n llai ffurfiol neu 'gwynfanllyd' nag anfon e-bost. Mae'n beth cyffredin iawn i ddefnyddio Twitter a Facebook ar gyfer hyn.

### E-BOST

Mae'n arfer da cael cyfeiriad e-bost eich gwersyllwyr, fel eich bod yn gallu anfon negeseuon atynt wedyn ynglŷn â'r tymor newydd, cynigion arbennig ac ati. Ond rydym yn argymell peidio ag anfon gormod o negeseuon rhag iddynt gael eu hystyried yn boendod! Efallai y byddech yn dymuno defnyddio sianel cyfrwng cymdeithasu i gyfleu negeseuon tebyg yn rheolaidd.

### CROESO CYMRU

Croeso Cymru sy'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu, marchnata a hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Os yw eich maes gwersylla wedi ei raddio, gallwch dalu ffi i gael eich cynnwys yn eu gweithgarwch marchnata ar-lein: **www.visitwales.com**





### EICH AWDURDOD LLEOL

Yn y rhan fwyaf o'r siroedd, mae eich awdurdod lleol yn hyrwyddo llety a thwristiaeth yn yr ardal trwy ddefnyddio gwefan a/neu gyhoeddiadau. Efallai y bydd yn codi ffi fechan ar gyfer y naill neu'r llall, neu'r ddau. Os ydych yn byw ym Mro Morgannwg, gallech gael eich rhestru ar **www.visitthevale.com**. Yma hefyd, gallwch ddod o hyd i gopi o'r llyfryn 'Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg' a gallwch ddewis hysbysebu ynddo. Cysylltwch â'r tîm twristiaeth i drafod eich maes gwersylla.

### CYMDEITHASAU MASNACH / TWRISTIAETH LLEOL

Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i hysbysebu neu gydweithredu â busnesau tebyg trwy ymuno â'ch siambr fasnach a/neu gymdeithas dwristiaeth leol. Os yw eich maes gwersylla ym Mro Morgannwg, 'Grŵp Marchnata'r Fro' **www.gardenofcardiff.com** yw eich cymdeithas dwristiaeth leol, ac maent yn darparu cyfleoedd marchnata ac yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ar gyfer y fasnach dwristiaeth. Efallai y byddwch yn dewis ymuno â'r cwmni cydweithredol, Perfect Pitch, hefyd, sy'n cynnig mwy o gyfleoedd marchnata ar y cyd: **www.perfectpitchcamping.co.uk**

### GRADDIO

Fel yn achos mathau eraill o lety, gellir rhoi gradd i feysydd gwersylla o ran eu gwasanaeth a'u cyfleusterau; gallai rhai gwersyllwyr chwilio am y radd seren hon wrth ddewis lle i aros (er na fydd pawb yn gwneud hynny!). Yn ogystal â bod yn ddyfarniad penodol y gallai pobl fod yn gyfarwydd ag ef, bydd yn rhaid i chi gymryd rhan yn y broses raddio hon bob blwyddyn os ydych eisiau cael eich rhestru ar wefan Croeso Cymru. Nid oes rhaid cael gradd er mwyn rhedeg maes gwersylla.

## { MARCHNATA }

### Y WASG

Nid yw'r wasg leol neu genedlaethol yn debygol o gynnwys hanesion golygyddol am faes gwersylla unigol oni bai bod rhywbeth sy'n arbennig o anghyffredin ynglŷn ag ef. Os byddwch yn cysylltu â'r wasg leol, efallai y byddant yn cyhoeddi eich bod yn agor y safle. Gallwch ddewis talu i roi hysbyseb yn y wasg, ond dewiswch eich cyhoeddiadau'n ofalus. Dim ond am un diwrnod y bydd hysbyseb mewn papur newydd dyddiol yn cyrraedd ei darllenwyr, ond bydd rhai cyhoeddiadau eraill, fel cylchgronau ffordd o fyw rhad ac am ddim yn cael eu cadw ar y silffoedd (ac ar gael yma ac acw mewn siopau trin gwallt neu feddygfeydd) am oddeutu dri mis. Os yw eich maes gwersylla yn apelio at farchnad arbenigol, efallai y gallech ystyried rhoi hysbyseb mewn cyhoeddiadau arbenigol a fydd yn denu'r un cwsmeriaid posibl.

### HYSBYSEBU'N LLEOL

Gan fod mwy a mwy o bobl yn tueddu i ddewis treulio eu gwyliau yn agos i'w cartref, efallai y bydd yn werth i chi roi posteri a/neu ddalenni gwybodaeth mewn tafarndai, ysgolion a siopau i helpu i ledu'r gair yn lleol. Cofiwch wneud yn siŵr bod digon ohonynt ar gael a'u bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

### FFOTOGRAFFIAETH

Rydym yn argymell y dylech ddefnyddio ffotograffydd proffesiynol i gael rhai delweddau da o'r maes gwersylla. Mae'n bosibl hefyd fod gan eich cymdeithas fasnach neu eich cyngor lleol a Chroeso Cymru gyflenwad o ffotograffau o'r ardal a'r atyniadau lleol y gallech eu defnyddio ar eich gwefan, a gallai'r rhain fod ar gael yn rhad ac am ddim.





MAE POB GWEITHGARWCH MARCHNATA YN ELWA AR GAEL FFOTOGRAFFIAETH O ANSAWDD DA.






## ARWYDDION

Efallai y bydd angen i chi ystyried defnyddio arwyddion i ddangos y ffordd at eich maes gwersylla, yn ogystal â rhai arwyddion croeso a gwybodaeth o'i amgylch. Bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o arwyddion sy'n fwy na 30cm x 30cm, ac felly, rydym yn argymell y dylech siarad â'ch awdurdod cynllunio lleol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

O ran meysydd gwersylla parhaol, bydd yn amod ar drwydded y safle bod yn rhaid cael rhai arwyddion/hysbysiadau.

Dim ond ar gyfer meysydd gwersylla parhaol y mae arwyddion gwyn ar frown yn berthnasol, ac, fel arfer, mae eich awdurdod lleol yn penderfynu pa bryd y mae'r rhain yn briodol.

Gallai safleoedd dros dro (y rhai hynny sy'n gweithredu am hyd at 28 diwrnod y flwyddyn) fod yn gymwys i gael arwyddion dros dro yr AA.

## COSTAU/ ARIANNU

Mae costau ynghlwm wrth sefydlu maes gwersylla newydd, ac rydym yn argymell y dylech baratoi cyllideb a chynllun busnes i'ch helpu i benderfynu a ydych am fynd yn eich blaen â'r syniad, ac er mwyn ystyried o ble y bydd eich arian yn dod.

Mae cymorth gyda chyllidebau a chynlluniau busnes ar gael i chi yn rhad ac am ddim. Os ydych yn byw yng Nghymru, gallech gysylltu â **www.business.wales.gov.uk**

Gallech fod yn gymwys i gael arian i'ch helpu i sefydlu eich maes gwersylla. Dylech gysylltu â'ch cyngor, cymdeithasau twristiaeth a masnach a Chroeso Cymru i gael gwybod pa gyfleoedd ariannu sydd ar gael yn eich ardal chi. Os nad ydych yn gymwys i gael costau sefydlu, gallech fod yn gymwys i gael rhai costau hyfforddi.



### DYLECH ROI YSTYRIAETH I Y CANLYNOL O LEIAF YN EICH CYLLIDEB:

- Darparu tai bach
- Darparu cawodydd
- Cyflenwad dŵr (gwaith gosod pibellau a chysylltiadau newydd)
- Biliau dŵr
- Cyflenwad a biliau trydan (ceblau a chysylltiadau newydd)
- Cyflenwad a biliau nwy
- Cyfleusterau golchi dwylo
- Casglu gwastraff a biniau
- Offer diogelwch, e.e. offer diffodd tân, larymau tân
- Marchnata
- Gwaith ar y safle
- Caniatâd cynllunio
- Deunyddiau treuliadwy (papur tŷ bach, sebon, cynhyrchion glanhau)
- Arwyddion
- Staff
- Yswiriant
- Gwaith cynnal a chadw parhaus

# DIOLCH YN FAWR

i bawb a gyfrannodd at gynllun peilot Perfect Pitch. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am gynllun peilot Perfect Pitch, efallai yr hoffech ddarllen yr Adroddiad Gwerthuso a baratowyd gennym **(www creativeruralcommunities)**, neu ddarllen ein blog **(www.perfectpitchcamping.co.uk)**

Os hoffech wersylla ym Mro Morgannwg, ewch i'r gwefannau canlynol:

**www.visitthevale.co.uk • www.gardenofcardiff.co.uk • www.perfectpitchcamping.co.uk**

## CYFEIRLYFR MEYSYDD

### GWERSYLLA YM MRO MORGANNWG

(gan gynnwys meysydd a oedd yn rhan o'r cynllun peilot yn 2012)

**MAES GWERSYLLA'R ARFORDIR TREFTADAETH,**
Yr As Fawr, CF71 7QQ
**T:** 01656 890399
info@heritagecoastcampsite.com

**MAES GWERSYLLA POOL FARM,**
Saint-y-brid, CF32 0SE
**T:** 01656 881675
kate@poolfarmcatering.co.uk

**MAES GWERSYLLA LOUGHER MOOR,**
Llanilltud Fawr, CF61 2YT
**T:** 01446 796988
enq@loughermoor.co.uk

**MAES GWERSYLLA FARMERS FIELDS,**
Llanilltud Fawr, CF61 2YT
**T:** 01446 793002
davies@farmersbarns.co.uk

**MAES GWERSYLLA THREE GOLDEN CUPS,**
Southerndown, CF32 0RW
Archebu (The Cups):
**T:** 01656 880432
alun747@yahoo.com

**PARC CARAFANAU LLANDŴ,**
Llandŵ, Y Bont-faen, CF71 7PB
**T:** 01446 794527
info@llandowcaravanpark.com

**HAPPY JAKES,**
Trefflemin, CF62 4QL
**T:** 01446 750174
info@happyjakes.co.uk

**PARC GWERSYLLA A CHARAFANIO ACORN,**
Llanilltud Fawr, CF61 1RP
**T:** 01446 794024
info@acorncamping.co.uk

**FONTYGARY PARK,**
Y Rhws, CF62 3ZT
**T:** 01446 719464
enquiries@fontygaryparks.co.uk